The Law Society

# Cynllun Busnes 25/26

## Terfynol

# Ein cynllun ar gyfer 2025/26

Rydym yn bodoli i wasanaethu ein haelodau, gan ofalu am eu buddiannau hwy a buddiannau’r systemau cyfreithiol a chyfiawnder y maent yn gweithio ynddynt. Mae'r pwrpas hwnnw’n ddigyfnewid ond mae'n rhaid i'r hyn a wnawn i'w gyflawni symud gyda'r amseroedd.

Yn ein strategaeth gorfforaethol ar gyfer 2025-28 rydym wedi nodi pum cenhadaeth allweddol sy'n mynd i'r afael â blaenoriaethau cyfredol proffesiwn cyfreithwyr. Y rhain yw: Technoleg, Amodau ar gyfer twf, Cyfiawnder a rheolaeth y gyfraith, Busnes cyfrifol, a Phrofiad yr Aelodau.

Rydym hefyd wedi ymrwymo i barhau i ddatblygu dwy agwedd allweddol ar Gymdeithas y Cyfreithwyr ei hun: y profiad o weithio i, neu wirfoddoli gyda Chymdeithas y Cyfreithwyr; a'n gallu i wasanaethu anghenion aelodau trwy alinio pobl, proses, technoleg a llywodraethu.

Gan ddefnyddio fframwaith y pum cenhadaeth a'r ymrwymiadau hynny ac ar ôl ymgynghori'n eang â'r proffesiwn yn ystod 2025, rydym yn cyhoeddi yn y cynllun hwn y prif bwyntiau ar gyfer cyflawni yn erbyn pob cenhadaeth ac ymrwymiad yn ystod y flwyddyn hyd at 31 Hydref 2026.

Official Sensitive

The Law Society

## Cenhadaeth 1

# Technole g

Technoleg, ymarfer y gyfraith a phrofiad defnyddwyr.

**Rydym wedi gosod pedwar nod strategol ar gyfer y genhadaeth hon sef:**

1. Cefnogi cwmnïau i fabwysiadu technoleg
2. Cymorth seiber-ddiogelwch i aelodau
3. Rheoleiddio Deallusrwydd Artiffisial sy'n cefnogi ymarfer cyfreithiol
4. Defnydd moesegol o dechnoleg cyfiawnder

### Ein prif gyflawniadau eleni:

#### 1. Nodyn ymarfer a phecyn cymorth Deallusrwydd Artiffisal

Nodyn ymarfer Deallusrwydd Artiffisial cynhwysfawr wedi'i gefnogi gan becyn cymorth gyda rhestrau gwirio risg, polisïau a thempledi i helpu cyfreithwyr i fabwysiadu Deallusrwydd Artiffisial yn ddiogel a hyderus.

#### 2. Canllawiau ac adnoddau seiberddiogelwch

Adnoddau risg seiber chwarterol, tudalennau gwe seiberddiogelwch diweddaredig, a chydweithio estynedig ag arbenigwyr allanol i gefnogi cwmnïau o bob maint i reoli bygythiadau seiber.

#### 3. Canllawiau asedau digidol a diogelu data

Canllawiau newydd ar asedau digidol ac adnoddau wedi'u diweddaru ar ddiogelu data a digonolrwydd UE-DU, gan helpu aelodau i barhau i gydymffurfio â deddfwriaeth sy'n esblygu.

.

Official Sensitive

The Law Society

## Cenhadaeth 1

# Technoleg

Technoleg, ymarfer y gyfraith a phrofiad defnyddwyr.

**Ein prif gyflawniadau eleni:**

### 4. Dysgu Deallusrwydd Artiffisial a chynnwys amlgyfrwng

Cynnwys dysgu ymarferol - cyfweliadau, clipiau cyfryngau cymdeithasol, ac erthyglau academaidd sy'n cynnig mewnwelediadau i’r defnydd o Ddeallusrwydd Artiffisial mewn ymarfer cyfreithiol.

### 5. Dylanwad polisi ar reoleiddio Deallusrwydd Artiffisial a Thechnoleg

Ymgysylltu gweithredol â'r llywodraeth ar y Bil Rheoleiddio Deallusrwydd Artiffisial, Deddf Data (Defnydd a Mynediad), a rheoleiddio technoleg ehangach i sicrhau bod buddiannau cyfreithwyr yn cael eu cynrychioli yn y gyfraith ac mewn polisi.

### 6. Cysylltiadau Aelod-Llywodraeth-Diwydiant

Hwyluso mynediad aelodau i ddeorfeydd, cyfarfodydd bord gron, a grwpiau ymddiriedolaeth trwy bartneriaethau ag adrannau'r llywodraeth, gan alluogi aelodau i lunio ac elwa ar arloesedd cyfreithiol.

### 7. Diweddariadau Lexcel ac achredu

Canllawiau newydd ar gyfer cwmnïau achrededig Lexcel ar ddefnyddio Deallusrwydd Artiffisial sy'n seiliedig ar risg, a diweddariadau i Safon Lexcel i gynnwys Cyber Essentials ac arferion gorau yswiriant seiber.

### 8. Digwyddiadau a chynnwys noddedig

Sioeau teithiol noddedig, digwyddiadau lansio, a chyfresi fideo chwarterol (e.e. gyda Legal Geek) i addysgu aelodau ar dechnolegau sy'n dod i'r amlwg a'u cymwysiadau ymarferol mewn gwaith cyfreithiol.

Cenhadaeth 2

# Amodau ar gyfer twf

Hyrwyddo twf gwasanaethau cyfreithiol gyda ffocws ar reoleiddio gwell.

**Rydym wedi gosod pedwar nod strategol ar gyfer y genhadaeth hon sef:**

1. Twf gwasanaethau cyfreithiol
2. Arholiad Cymhwyso Cyfreithiwr (SQE) gwell
3. Gwell rheoleiddio ar gyfer y proffesiwn
4. Cefnogi cyfreithwyr yng Nghymru

**Ein prif gyflawniadau eleni:**

**1. Cymorth ac adnoddau BBaChau**

Lansio maniffesto BBaCh a Hwb 'cymorth ac adnoddau' sy'n cynnig arweiniad ymarferol, gofynion polisi, a chymorth busnes i gwmnïau bach ac unig ymarferwyr.

**2. Dylanwad rheoleiddiol a diogelu aelodau**

Eiriol dros well rheoleiddio sy'n gymesur, wedi'i dargedu ac yn effeithiol, gan sicrhau bod aelodau'n cael eu cefnogi wrth reoli risgiau a heriau cydymffurfio allweddol.

**3. Mynediad i farchnad ryngwladol a hyrwyddiant**

Ymgysylltu strategol â llywodraeth y DU a rhai tramor i gefnogi gwasanaethau cyfreithiol mewn trafodaethau masnach, hyrwyddo cyfraith Lloegr, a monitro cystadleuaeth ryngwladol a risg i enw da. Cynnal digwyddiadau hyrwyddo dylanwadol fel Wythnos Anghydfodau Rhyngwladol Llundain.

Official Sensitive

The Law Society

Cenhadaeth 2

# Amodau ar gyfer twf

Hyrwyddo twf gwasanaethau cyfreithiol gyda ffocws ar reoleiddio gwell.

**Ein prif gyflawniadau eleni:**

### 4. Seiberddiogelwch a chymorth achredu

Gwell cefnogaeth i bractisau achrededig CQS trwy asesiadau ar y safle, canllawiau a hyfforddiant wedi'u diweddaru, a chael dylanwad ar safonau seiberddiogelwch a diogelu defnyddwyr.

### 5. Ymchwil SQE a chynhyrchion sy'n wynebu aelodau

Troi canfyddiadau ymchwil SQE Medi 2025 yn offer ac yn adnoddau ymarferol i gefnogi ymgeiswyr.

### 6. Cyfiawnder ac ymgysylltu â pholisi yng Nghymru

Parhau i gyflawni'r strategaeth Ailddychmygu Cyfiawnder yng Nghymru, gan gynnwys papurau polisi ar anialwch cyfreithiol a chaffael, ac ymgysylltu â rhanddeiliaid gwleidyddol a'r cyfryngau yng Nghymru.

### 7. Canllawiau cyflogaeth a throseddau economaidd

Ymateb i ymgynghoriadau ar y Ddeddf Hawliau Cyflogaeth a diwygio'r Tŷ Cwmnïau, gan roi cyngor clir i'r aelodau ar ddyletswyddau newydd a gofynion cydymffurfio.

### 8. Ymarfer Cyfreithiol a diwygio polisi

Dylanwadu ar ddiwygiadau mewn prynu tai, lesddaliadaeth, protocolau trawsgludo, a'r Ddeddf Diogelwch Adeiladu, gan ddarparu canllawiau a chyngor ymarferol wedi'u diweddaru i drawsgludwyr.

Official Sensitive

The Law Society

Cenhadaeth 3

# Cyfiawnder a rheolaeth y gyfraith

Hyrwyddo mynediad at gyfiawnder a rheolaeth y gyfraith yn y DU a ledled y byd.

**Rydym wedi gosod pedwar nod strategol ar gyfer y genhadaeth hon sef:**

1. Hawliau a rheolaeth y gyfraith
2. Mynediad at gyfiawnder
3. Pontio'r bwlch cyfiawnder

**Ein prif gyflawniadau eleni:**

### 1. Cymorth cyfreithiol a diwygio'r system gyfiawnder

Dylanwadu ar bolisi'r llywodraeth ar gymorth cyfreithiol sifil a throseddol, gan gynnwys diwygiadau sy'n gysylltiedig â'i gynaliadwyedd hirdymor. Gweithio ar y cyd ar atebion arloesol i fynediad at gyfiawnder a moderneiddio llysoedd a dylanwadu ar raglen arloesi'r Weinyddiaeth Gyfiawnder i fynd i'r afael ag ôl-groniadau llysoedd a chapasiti carchardai.

### 2. Deddf Cyfreithwyr a diwygio ymgyfreitha

Dylanwadu ar ddiwygiadau i'r Ddeddf Cyfreithwyr, Costau Adferadwy Sefydlog, a mecanweithiau cyllido ymgyfreitha allweddol fel CFAs, DBAs, a chyllid trydydd parti.

### 3. Ewyllysiau, profiant ac eiriol rheolaeth y gyfraith

Ymateb i gynigion polisi sylweddol ynghylch ewyllysiau a phrofiant a chyflwyno ymchwil ar bwysigrwydd economaidd rheolaeth y gyfraith, gan gynnwys cyfarfodydd bord gron ac ymgysylltu â rhanddeiliaid.

Official Sensitive



## Cenhadaeth 3

# Cyfiawnder a rheolaeth y gyfraith

Hyrwyddo mynediad at gyfiawnder a rheolaeth y gyfraith yn y DU a ledled y byd.

**Ein prif gyflawniadau eleni:**

### 4. Hawliau dynol ac amddiffyn cyfreithwyr

Defnyddio'n llais blaenllaw i adeiladu dealltwriaeth ac ymrwymiad i reolaeth y gyfraith a fframweithiau hawliau dynol domestig a rhyngwladol. Datblygu strategaethau i gefnogi cyfreithwyr sy'n wynebu bygythiadau ac eiriol dros amddiffyniadau cyfreithiol rhyngwladol fel Confensiwn Cyngor Ewrop.

### 5. Rheolaeth ryngwladol y gyfraith a mynediad i'r farchnad

Cyflwyno rhaglenni sy'n cefnogi cyfreithwyr mewn perygl, cymryd rhan mewn trafodaethau masnach rhyngwladol, a hyrwyddo cyfraith Lloegr yn fyd-eang trwy ddigwyddiadau, sesiynau briffio, a phartneriaethau rhanddeiliaid.

### 6. Ymgynghoriadau a dylanwad ar ddeddfwriaeth

Darparu mewnbwn cyson ar gyfer ymgynghoriadau, briffio biliau, a thystiolaeth seneddol i ddylanwadu ar ddeddfwriaeth a pholisi ar draws cyfiawnder, rheoleiddio a throseddau economaidd.

### 7. Cefnogaeth i'r sector cyfreithiol mewnfudo

Cyflwyno contract mewnfudo'r Weinyddiaeth Gyfiawnder i gynyddu capasiti yn y farchnad fewnfudo, gwella paratoi at arholiadau, a chefnogi mynediad at gyfiawnder trwy baratoi cyfreithwyr yn well.

Official Sensitive

## Cenhadaeth 4

# Busnes cyfrifol

Cefnogi'r proffesiwn ar bob agwedd ar fusnes cyfrifol.

### Rydym wedi gosod pedwar nod strategol ar gyfer y genhadaeth hon sef:

1. Cymorth llesiant i gyfreithwyr
2. Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant (EDI)
3. Cyfreithwyr a lleihau carbon
4. Moeseg gref ac ymarferol

### Ein prif gyflawniadau eleni:

**1. Adnoddau datblygu gyrfa a mentora**

Casglu tystiolaeth a mewnwelediadau i lywio sut rydym yn datblygu adnoddau ar ddatblygu gyrfa, mentora, a rhaglenni nawdd i gefnogi talent amrywiol ar draws y proffesiwn.

**2. Hwb adnoddau Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant (EDI) hygyrchol**

Lansio hwb EDI hawdd ei ddefnyddio ar wefan Cymdeithas y Cyfreithwyr sy'n cynnig arweiniad a chefnogaeth wedi'i deilwra i gwmnïau, timau mewnol, ac unigolion i sefydlu arferion cynhwysol.

**3. Cymorth anabledd a gweithio hyblyg**

Darparu canllawiau Addasiadau Rhesymol diweddaredig, adnoddau newydd ar hyfforddiant anabledd, ac offer ymarferol i helpu cwmnïau i weithredu gweithio hyblyg yn effeithiol.

Official Sensitive

The Law Society

## Cenhadaeth 4

# Busnes cyfrifol

Cefnogi'r proffesiwn ar bob agwedd ar fusnes cyfrifol.

**Ein prif gyflawniadau eleni:**

### 4. Cymorth llesiant a negeseuon strategol

Adnewyddu a chadarnhau cynnwys llesiant, ymgysylltu â phartneriaid sy'n canolbwyntio ar lesiant, a darparu cyfarfodydd bord gron a negeseuon strategol i gefnogi iechyd meddwl ar draws y proffesiwn.

### 5. Canllawiau Newid yn yr Hinsawdd a Sero Net

Cyhoeddi arolwg cenedlaethol ar Gynnydd y Sector Cyfreithiol ar Sero Net, diweddaru canllawiau ar risgiau cyfreithiol sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd, a datblygu deunyddiau newydd ar gyfer cyfreithwyr mewnol ac ymarfer sy'n gysylltiedig â bioamrywiaeth.

### 6. Cefnogaeth i ymgeiswyr arholiadau

Darparu adnoddau llesiant wedi'u targedu ac arwyddion ar gyfer ymgeiswyr sy'n paratoi ar gyfer arholiadau ac achrediadau, gan eu helpu i reoli straen a meithrin gwytnwch.

### 7. Diwylliant cynhwysol ac ymgysylltu ag arweinyddiaeth

Cynnull uwch arweinwyr trwy raglen Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant bwrpasol a rhoi sylw I arweinwyr amrywiol trwy ymgyrch gyfathrebu. Cyhoeddi offer ac adnoddau i fesur, datblygu a chynnal diwylliannau cynhwysol, cynnal arolwg i ddeall profiadau cyfreithwyr LHDTQ+ a chyhoeddi adnoddau a deunyddiau ar gynghreiriaeth.

### 8. Cymorth ar foeseg broffesiynol

Hyrwyddo'r fframwaith moesegol mewnol a chwmpas prosiect newydd ar foeseg mewn ymarfer preifat.

Official Sensitive

The Law Society

## Cenhadaeth 5

# Gwerth a Phrofiad aelodau

Hyrwyddo ein proffesiwn a phrofiad aelodau.

**Rydym wedi gosod pedwar nod strategol ar gyfer y genhadaeth hon sef:**

1. Helpu aelodau i gymryd rhan
2. Hyrwyddo'r proffesiwn
3. Cynyddu buddion aelodaeth
4. Targedu'r cynnig aelodau

**Ein prif gyflawniadau eleni:**

**1. Gyrfaoedd barnwrol a chymorth eiriolaeth**

Eiriol a dylanwadu ar amrywiaeth a phenodiadau barnwrol cyfreithwyr, hyrwyddo'r farnwriaeth fel llwybr gyrfa a chynyddu nifer y barnwyr-gyfreithwyr.

**2. Eiriolaeth ac adnoddau Pro Bono**

Hyrwyddo gwerth gwaith pro bono cyfreithiwr a darparu pecyn cymorth ymarferol i helpu aelodau i ddarparu gwasanaethau pro bono effeithiol.

**3. Gwella profiad a chyfathrebu ag aelodau**

Gwella taith yr aelodau ar draws ystad ddigidol Cymdeithas y Cyfreithwyr, gweithredu system newydd i ddosbarthu e-bost a darparu cynnwys wedi'i dargedu i segmentau o aelodau allweddol er mwyn gwella ymgysylltiad a gwerth.

Official Sensitive

Cenhadaeth 5

# Gwerth a Phrofiad aelodau

Hyrwyddo ein proffesiwn a phrofiad aelodau.

**Ein prif gyflawniadau eleni:**

### 4. Digwyddiadau a rhwydweithio aelodau

Cyflwyno rhaglen ddigwyddiadau flynyddol, gan gynnwys digwyddiadau premiwm a buddion, seremonïau derbyn, a chyfleoedd ymgysylltu strategol gyda chwmnïau mawr a thimau mewnol.

### 5. Ymgysylltu â rhanddeiliaid a deallusrwydd sector

Cydlynu ymgysylltiad â phartneriaid dinesig allweddol, cwmnïau cyfreithiol mawr, a thimau mewnol, wrth ddarparu gwybodaeth am y sector a sganio gorwelion i lywio gwaith sy'n ymwneud ag aelodau.

### 6. Grantiau a strategaeth ariannu

Lansio strategaeth a model grantiau newydd i gefnogi mentrau aelodau, gan gynnwys gwella prosesau cyllido ac atebion technoleg ar gyfer rheoli yn y dyfodol.

### 7. Eiriol dros y brand ac aelodaeth cyfreithiwr

Cyflwyno strategaeth sy'n eiriol dros frand cyfreithwyr ac ymgyrch gyfathrebu integredig i godi ymwybyddiaeth o werth y proffesiwn a manteision defnyddio cyfreithiwr.

# Ein hymrwymiadau parhaol

Yn ogystal â chyflawni'r pum cenhadaeth, byddwn yn datblygu Cymdeithas y Cyfreithwyr mewn dau faes allweddol - y profiad o weithio i'n sefydliad, neu wirfoddoli gyda'n sefydliad, a'n gallu i wasanaethu anghenion cyfreithwyr, trwy sicrhau bod pobl, prosesau, technoleg a llywodraethu yn cyd-fynd â'i gilydd.



Official Sensitive

Ymrwymiad parhaol 1

# Ffyrdd o weithio

Gwneud Cymdeithas y Cyfreithwyr yn lle gwych i weithio a gwirfoddoli.

The Law Society

## Rydym wedi gosod tri nod strategol ar gyfer y genhadaeth hon sef:

1. Cryfhau ein diwylliant yn y gweithle
2. Hyrwyddo dysgu ac arloesi
3. Gweithio gyda'n partneriaid strategol

### Ein prif gyflawniadau eleni:

**1. Datblygu ffyrdd o weithio**

Diffinio cwmpas y gwaith a'r blaenoriaethau cytunedig ar gyfer ein rhaglen 'ffyrdd o weithio' i ddatblygu a gwella effeithiolrwydd.

**2. Adnewyddu ein gwerthoedd**

Casglu mewnwelediad a safbwyntiau i gefnogi adolygiad cynhwysfawr a gwella ein gwerthoedd sefydliadol.

**3. Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant cynhwysol ac effeithiol**

Datblygu ein strategaeth Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant newydd, i feithrin arferion sy'n deg, cynhwysol ac effeithiol.

**4. Galluoedd a datblygiad sefydliadol**

Diffinio galluoedd sefydliadol blaenoriaeth i gyflawni ein strategaeth gorfforaethol a chefnogi datblygiad a chynnydd mewnol. Treialu proses a meini prawf cynllunio olyniaeth sefydliadol i gysoni, cryfhau a chadw galluoedd sefydliadol.

**5. Mewnrwyd wedi'i foderneiddio**

Datblygu mewnrwyd SharePoint newydd i'w gwneud hi'n haws dod o hyd i'r hyn sy'n bwysig a'i rannu.

**Ymrwymiad parhaol 2**

# Datblygu ein gwasanaethau yn barhaus

Datblygu ein gwasanaethau yn barhaus i wasanaethu ein haelodau.

**Rydym wedi gosod pum nod strategol ar gyfer y genhadaeth hon sef:**

1. Cynhyrchion masnachol newydd
2. Strategaeth data aelodau
3. Buddsoddi mewn technoleg i wasanaethu aelodau
4. Cyflawni prosiectau a gwelliant parhaus
5. Penderfyniadau a goruchwyliaeth effeithlon

**Ein prif gyflawniadau eleni:**

**1. Mewnwelediad cryfach i aelodau ar gyfer gwasanaethau craffach**

Lansio arolwg o anghenion aelodau gyda chwmnïau cyfreithiol mawr er mwyn deall eu blaenoriaethau dysgu a datblygu, gan ddefnyddio'r canfyddiadau i lunio a thyfu ein cynnig i aelodau.

**2. Twf masnachol trwy bartneriaethau strategol**

Creu strategaeth ymgysylltu B2B i gefnogi cwmnïau cyfreithiol mawr a sectorau mewnol gydag anghenion hyfforddiant, gyrru refeniw ac adeiladu partneriaethau cynnwys strategol.

**3. Prisio doethach a datblygu cynnyrch**

Adolygu a mireinio modelau prisio ar gyfer hyfforddiant, achrediadau a Ffurflenni, er mwyn sicrhau cystadleurwydd a hyblygrwydd i aelodau.

Official Sensitive

The Law Society

## Ymrwymiad parhaol 2

# Datblygu ein gwasanaethau yn barhaus

Datblygu ein gwasanaethau yn barhaus i wasanaethu ein haelodau.

**Ein prif gyflawniadau eleni:**

### 4. Portffolio dysgu wedi'i optimeiddio

Cynnal adolygiad strategol o'n cynnwys dysgu a datblygu i archifo hen ddeunyddiau a gwella perthnasedd ac effaith ein hadnoddau ar gyfer aelodau.

### 5. Twf refeniw trwy gyhoeddiadau ac achrediad

Tyfu ein cynnig cyhoeddiadau digidol gyda nodweddion newydd a strategaeth sy'n wynebu'r dyfodol, wrth archwilio cyfleoedd masnachol mewn achredu ac arbenigedd arholiadau.

### 6. Rheoli data yn well i gael mwy o fewnwelediad

Gweithredu platfform data a gwell arferion rheoli data sy'n arwain at ddata integredig o ansawdd uchel. Bydd hyn yn galluogi dadansoddiad cyfoethocach i ategu ein dewisiadau strategol.

### 7. Map trywydd technoleg ar gyfer cyflawni craffach

Datblygu map trywydd technoleg a Deallusrwydd Artiffisial sy'n seiliedig ar dystiolaeth i lywio'r gwaith o gynllunio'r sefydliad yn y dyfodol a sicrhau bod ein platfformau a'n gwasanaethau yn bodloni anghenion esblygol aelodau a busnesau.

### 8. Egwyddorion newydd ar gyfer gwneud penderfyniadau effeithiol

Cydgrynhoi canlyniadau ac argymhellion adolygiadau llywodraethu a gynhaliwyd yn ystod cyfnod cynllun 2022-25 a chytuno trwy gyrff llywodraethu ar egwyddorion newydd ar gyfer gwneud penderfyniadau effeithiol.

# Gweithio gyda'n haelodau

Yn ystod 2025-26 byddwn yn gweithio gyda chyfreithwyr drwy ein strwythurau cynrychioliadol sefydledig, gan gynnwys ein Cyngor a'n pwyllgorau, yn ogystal â sefydlu llwybrau newydd i gyfranogi gan gynnwys ein rhaglen Cymryd Rhan/Get Involved, gan roi ffordd fwy uniongyrchol i'n cyfreithwyr arbenigol i gyfrannu at y prosiectau a'r pynciau sydd fwyaf diddordol iddyn nhw, ar adegau a ffyrdd sy'n cyd-fynd â'u bywydau proffesiynol prysur.

Bydd ein gwaith diwygio polisi a'r gyfraith yn parhau ar draws ystod o feysydd ymarfer, gyda ffocws ar y pum cenhadaeth a chyfranogiad ehangach trwy ein pwyllgorau sefydledig a'n rhaglen Cymryd Rhan/Get Involved.

The Law Society